



PARATOI AR GYFER RECRIWTIO – LLYFR GWYRDD A ROLAU CORFFORAETHOL

Pryd bynnag y bydd Llyfr Gwyrdd neu rôl gorfforaethol yn wag, ni fydd yn cael ei llenwi'n awtomatig; Gofynnir i Reolwyr Llinell ystyried a oes angen i'r dyletswyddau neu'r gweithgareddau o fewn y rôl barhau, a gofynnir iddynt ddarparu rhesymeg dros eu penderfyniad.

Pan gadarnhair bod swydd wag yn y Llyfr Gwyrdd ar gyfer swydd sy'n dal i fod yn ofynnol, cyfrifoldeb y Rheolwr Llinell yw:

- [llenwi Ffurflen Cais am Swydd – cliciwch yma](#). Rhaid cymeradwyo hyn wedyn cyn y gellir hysbysebu'r swydd wag;
- sicrhau bod y disgrifiad swydd a'r fanyleb person yn gywir, a'u bod yn adlewyrchu anghenion y Gwasanaeth a'r adran, gan gynnwys a yw'r rôl yn addas ar gyfer gweithio ystwyth i'w wneud.

Pan fo angen newidiadau i'r disgrifiad swydd a/neu fanyleb person, rhaid i'r Rheolwr Llinell drafod y diwygiadau gyda'r Tîm Gwerthuso Swyddi er mwyn ystyried nid yn unig eu heffaith ond hefyd a fydd angen ailwerthuso ffurfiol. Dylai'r broses hon ddigwydd cyn recriwtio, pryd bynnag y bo'n bosibl; Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y [Canllawiau Gwerthuso Swyddi – cliciwch yma](#).

Mewn amgylchiadau eithriadol ar gyfer swyddi gwag Llyfr Gwyrdd, efallai y bydd gofyniad i benodi i rolau heb hysbysebu'r cyfle. Mae enghreifftiau o amgylchiadau lle gall hyn godi yn cynnwys:

- rolau arbenigol, technegol neu weithredol y mae angen eu llenwi ar frys er mwyn atal tarfu ar ddarparu gwasanaethau;
- pan ystyrir bod gweithiwr dros dro sy'n ymgymryd â'r rôl yn addas ac mae opsiwn i wneud y gweithiwr hwnnw'n barhaol.

Os yw Rheolwr Llinell eisiau cynnig ei swydd dros dro gychwynnol i weithiwr dros dro yn barhaol, bydd proses recriwtio agored yn digwydd cyn y gellir eu gwneud yn barhaol yn y rôl, er mwyn rhoi cyfle i bawb gael eu hystyried. Gall hyn fod yn broses gystadleuol neu beidio, yn dibynnu ar a yw hysbysebu'r swydd yn denu ceisiadau eraill.

At ddibenion adrodd cywir, dylid cofnodi pob penderfyniad recriwtio a'i storio'n gyfrinachol am y cyfnod priodol o amser fel y nodir ym [Mholisi Diogelu Data'r Gwasanaeth – cliciwch yma](#). Os bydd swydd wag yn digwydd o fewn chwe mis i'r dyddiad y cynhaliwyd y cyfweiliadau diwethaf arno, gall y Gwasanaeth gyfeirio'n ôl at wybodaeth a gofnodwyd a chynnig y swydd i'r ymgeisydd mwyaf addas nesaf, os yw'n briodol.

Mae'r ddogfen hon yn rhan o gyfres o nodiadau gwybodaeth sy'n cwmpasu'r maes pwnc hwn; mae dolenni i'r holl ddogfennau ar gael trwy glicio yn ôl i'r hafan.

Os daw unrhyw hepgoriadau neu wallau i'r amlwg o ran cynnwys y gyfres hon o ddogfennau, gwahoddir darllenwyr i gysylltu â

policy.development@tangogleddcymru.llyw.cymru gyda'u hadborth.

Argymhellir adolygu'r ddogfen hon bob tair blynedd; fodd bynnag, efallai y bydd angen ei adolygu'n gynharach yng ngoleuni unrhyw newid rheoleiddiol sy'n dod i rym yn y cyfamser.

Perchennog (Adran)	Adnoddau Dynol	Fersiwn	1.0
Adolygwyd ddiwethaf gan (deiliad post)	Pennaeth Adnoddau Dynol	Dyddiad adolygu diwethaf	7 ^{fed} Rhagfyr 2023
		Dyddiad adolygu a argymhellir	7 ^{fed} Rhagfyr 2026